



Datganiad Preifatrwydd (Cynigion am Wobr Pat Chown)

Hunaniaeth a Manylion Cyswllt Rheolwr Data

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC) yn gorff ymbarél o gymdeithasau tai yng Nghymru. Fel sefydliad anelwn i:

- Ddylanwadu ar bolisi'r llywodraeth
- Cefnogi a hyrwyddo gwaith ein haelodau
- Bod yn llais i'r sector

Ein manylion:

Cartrefi Cymunedol Cymru
2 Ocean Way, Caerdydd, CF24 5TG
www.chcymru.org.uk
02920674810
privacy@chcymru.org.uk

Rydym yn Elusen Gofrestredig (1128527) ac yn Rheolydd Data Cofrestredig (ZA334456).

Data a gesglir a diben prosesu

Fel sefydliad, dim ond yr wybodaeth sy'n hanfodol i ni gynnal proses deg i lunio rhestr fer y byddwn yn ei dal.

Felly, dim ond yr wybodaeth ddilydol y byddwn yn ei chasglu gennych:

- Enw Cyswllt
- Enw'r Prosiect
- Rhif Ffôn
- E-bost
- Ffurflen Gyflwyno
- Deunyddiau cefnogi (lluniau, gwefan prosiect, dolenni eraill)

Gall peth o'r wybodaeth hon gael ei rhannu gyda'r sector i ofyn am eu help i ddewis enillydd. Gellir datgelu'r wybodaeth drwy ein gwefan, cylchlythyr wythnosol, ymgyrchoedd e-bost a'n cylchgrawn ar-lein Cartref.

Sail cyfreithiol ar gyfer prosesu

Daliwn yr wybodaeth yma dan Erthygl 6 y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ar gyfer prosesu dan fuddiannau dilys. Mae er ein budd ni fel sefydliad a hefyd eich prosiect i ni ddal a defnyddio'r data a gyflwynwch.

Fel rhan o'r broses o lunio'r rhestr fer, byddwn yn rhannu peth o'r wybodaeth o'r prosiect, yn cynnwys eich enw a'ch sefydliad, gyda'n haelodau. Os na ddymunwch i'ch enw gael ei gynnwys yn y crynodeb a anfonir at y sector, mae gennych hawl gofyn am i'r cynnig barhau'n ddiennw. Cysylltwch â privacy@chcymru.org.uk i drafod hyn ymhellach os gwelwch yn dda.



Derbynwyr neu gategoriâu derbynwyr

Y Cymhorthydd Gweinyddol fydd yn derbyn y ceisiadau yn y lle cyntaf, ac anfonir y rhain mewn fersiwn electronig os oes modd. Bydd y Cymhorthydd Gweinyddol yn eu cadw mewn ffolder ddiogel gyda mynediad cyfyngedig ar y rhwydwaith mewnol a bydd yn cadw copi ar eu e-bost.

Caiff pob cais ei adolygu gan aelodau'r panel beirniaid.

Cyfnod cadw neu feini prawf a weithredwyd

Caiff pob cynnig eu cadw ar y gyriant mewnol diogel, gyda mynediad wedi'i gyfyngu i rai aelodau neilltuol o dîm CHC yn unig, a dim ond ar gyfer y broses o lunio'r rhestr fer y cânt eu hargraffu. Ni fydd y beirniaid yn trafod y ceisiadau heblaw yn ystod y broses o lunio'r rhestr fer.

Caiff pob cais eu cadw am hyd at 6 mis ar ôl dyddiad llunio'r rhestr fer, yn ogystal ag unrhyw nodiadau a wneir yn ystod y broses o lunio'r rhestr fer.

Mae hefyd yn hanfodol i ni ddal gwybodaeth ar gyswllt y prosiect am 18 mis yn dilyn y cyflwyniad dechreuol, fel y gallwn eu hysbysu am ganlyniadau'r broses rhestr fer a dilyn i fyny at ddatblygiad y cynllun buddugol. Gallwn gadw manylion y prosiectau am hyd at 3 blynedd, ond nid manylion cyswllt personol y prosiect.

Hawliau unigol dan GDPR

Dan GDPR, mae gan bob gwrthrych data yr hawliau dilynol:

- **Mynediad** – mae gan bob gwrthrych data hawl i ofyn am unrhyw wybodaeth a gaiff ei phrosesu gan ein sefydliad. Cysylltwch â privacy@chcymru.org.uk gyda theitl pwnc '**Cais Gwrthrych am Wybodaeth**' os gwelwch yn dda. Byddwn angen i chi roi dau ddarn o dystiolaeth yn profi pwy ydych i sicrhau ein bod yn rhoi'r wybodaeth i'r person cywir. Byddwn yn ymateb i'ch cais o fewn un mis. Ni chodir tâl am gais mynediad bwnc, ond gall ceisiadau mynych a beichus olygu y codir tâl.
- **Unioni** – mae gennych chi, fel y gwrthrych data, hawl i sicrhau y caiff unrhyw ddata anghywir a gedwir amdanoch ei diweddaru heb oedi. Cysylltwch â privacy@chcymru.org.uk gyda theitl pwnc 'Unioni Data' os gwelwch yn dda a byddwn yn delio gyda'ch ymholiad o fewn 10 diwrnod gwaith.
- **Dileu** - os gwnewch cais i ni ddileu eich gwybodaeth, byddwn yn gwneud hynny. Cysylltwch â privacy@chcymru.org.uk gyda'r teitl pwnc '**Dileu data**' a byddwn yn delio gyda'ch ymholiad o fewn 10 diwrnod gwaith.
- **Cyfyngu prosesu** - mae gennych hawl i gyfyngu'r hyn y defnyddiwn ddata ar ei gyfer. Cysylltwch â privacy@chcymru.org.uk gyda theitl pwnc '**Cyfyngu Prosesu Data**' a byddwn yn delio gyda'ch cais o fewn 10 diwrnod gwaith.
- **Gwrthwynebiad i brosesu** - mae gennych hawl i wrthwynebu i ni brosesu eich data ar unrhyw adeg. Os nad ydych mwyach yn dymuno i ni gadw data arnoch, cysylltwch â



privacy@hcymru.org.uk os gwelwch yn dda gyda'r llinell pwnc '**Gwrthwynebiad i brosesu**' a byddwn yn delio gyda'ch ymholiad o fewn 10 diwrnod gwaith.